**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn dwyn y teitl Horizon 2020: Adroddiad Cyfnod 2**

**Mehefin 2013**

---

A. CYFLWYNIAD A MATERION ALLWEDDOL O BWYSIGRWYDD STRATEGOL

1. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar broffil a chyfranogiad Cymru yn Horizon 2020, rhaglen ariannu ymchwil a menter arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd o 2014.

2. Gallai Horizon 2020 fod yn werth tua €70 biliwn rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE ar gyfer cyfnod 2014-2020 ac rwyf am weld Cymru ar y blaen yn Ewrop yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil a menter, a gynigia'r ffrwd arian allanol hon a weinyddir gan yr UE, a thrwy hynny sicrhau'r gallu i gystadlu'n fyd-eang a chreu swyddi a thwf yng Nghymru.

3. Daw graddfa elfennau rhaglen megis Horizon 2020 a graddfa ei gweithgareddau'n fwy eglur cyn gynted ag y deuir i gytundeb ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd.

B. Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi eu nodi isod:

Mae'r Pwyllgor yn argymell fod:

Argymhelliad 1: Cynnwys gyda'i hymateb i'n hadroddiad ar gyfnod 2, y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r 16 argymhelliad yn ein hadroddiad ar gyfnod 1.

Ymateb: Derbyn

Mae diweddariad wedi ei ddarparu fel Atodiad i'r ymateb hwn. Pan gyfeirir at y diweddariad drwy ymateb (neu ymatebion) i argymhellion yr adroddiad Cyfnod 2, yna mae cyfeiriadau priodol wedi eu gwneud.

Oblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 2: Archwilio ac asesu swyddogaeth Rhwydwaith Cymorth Cenedlaethol Iwerddon ar gyfer FP7, y gwersi a ddysgwyd a'r arferion da y gellid eu defnyddio yng nghyd-destun Cymru i hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â fframwaith Horizon 2020.

Ymateb: Derbyn

Mae Uned Horizon 2020 WEFO wedi bod yn cysylltu gyda chydweithwyr yn Iwerddon (a Gogledd Iwerddon) ynglŷn â'u dull o ymdrin â FP7 a'u paratoadau ar gyfer Horizon 2020. Mae cyfarfod pellach eisoes wedi ei drefnu gyda Dr Imelda Lambkin, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Rhwydwaith Cymorth Cenedlaethol Iwerddon erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Bydd y cyswllt hwn yn helpu i gasglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio strategol yr Uned, er bod statws Iwerddon fel Aelod Wladwriaeth yn golygu nad yw'r holl arferion yn gymwys yng nghyd-destun Cymru.

Oblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer y cyswllt hwn yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol ond bydd mabwysiadu unrhyw arfer dda a nodir yn dod â goblygiadau ariannol o bosibl na ellir eu mesur ar yr adeg hon.

Argymhelliad 3: Archwilio ac asesu effaith Grŵp Llywio Ymchwil a Datblygu'r Alban a'i Fframwaith Cymorth newydd ar gyfer Horizon 2020, a dysgu unrhyw wersi a fydd yn sail i ddatblygu dull mwy strategol o ddarparu peirianweithiau cymorth yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Cyfarfu Uned Horizon 2020 WEFO yn ddiweddar gyda chydweithwyr o Lywodraeth yr Alban a Scottish Europa ynglŷn â'u dull o weithredu ar gyfer FP7 a'r paratoadau ar gyfer Horizon 2020, gan gynnwys rôl eu Grŵp Llywio ar gyfer Ymchwil a Menter. Mae'r cyswllt hwn eisoes wedi nodi rhai arferion da defnyddio ynglŷn â chael mynediad at rwydweithiau Brwsel fydd o gymorth i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio strategol yr Uned. Mae WEFO mewn cysylltiad rheolaidd hefyd gyda chydweithwyr yn yr Alban ynglŷn â datblygu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020, gan gynnwys dulliau ymchwil a menter. Bydd cyswllt pellach yn digwydd wrth i'r rhaglenni'r Gronfa Strwythurol ddatblygu ac i Uned Horizon 2020 archwilio mwy ar y cyfleoedd i wella'r strwythur cymorth yn barhaus yng Nghymru.

Oblygiadau aiannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer y cyswllt hwn yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol ond bydd mabwysiadu unrhyw arfer dda a nodir yn dod â goblygiadau ariannol o bosibl na ellir eu mesur ar yr adeg hon.

Argymhelliad 4: Ystyried effeithiolrwydd y rhwydwaith presennol o Bwyntiau Cyswllt Cenedlaethol yn cefnogi cyfranogiad Cymru yn FP7, a sut mae'r uned Horizon 2020 newydd yn WEFO yn cyd-fynd â'r adolygiad hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Nod allweddol Uned Horizon 2020 WEFO yw llwyddo i gael yr effaith fwyaf o'r cymorth sy'n bodoli'n barod ar gyfer cael mynediad at FP7/Horizon 2020 ar lefel Cymru, y DU a'r UE, er budd sefydliadau Cymreig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella mynediad sefydliadau Cymru at Bwyntiau Cyswllt Cenedlaethol FP7/Horizon 2020, ac mae'r Uned eisoes wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'r Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol cyfredol ac wedi dod a nhw i Gymru ar gyfer digwyddiadau targed; er enghraifft, cyflwynodd Pwynt Cyswllt Cenedlaethol TGCh i fusnesau a rhanddeiliaid o Gymru yng ngweithdy Horizon 2020 yr Uned yn y digwyddiad amlwg iawn, Digidol 2013 ym mis Mehefin.

Fel pwynt Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer FP7 (a Horizon 2020 yn y dyfodol), mae Uned Horizon 2020 WEFO eisoes yn rhan o rwydwaith ehangach y Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol. Yn y rôl hon, mae'r Uned wedi nodi gofynion sefydliadau Cymru yn ystod yr adolygiad diweddar o Bwyntiau Cyswllt Cenedlaethol gan Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau'r DU a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg. Mae'r adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg wedi croesawu creu Uned WEFO fel cyswllt canolog ar gyfer eu hymwneud â Chymru ynglŷn â Horizon 2020 ac mae'r cyswllt clos yn parhau. Rydym yn deall bod yr adolygiad Busnes, Arloesedd a Sgiliau/Bwrdd Strategaeth

Technoleg wedi argymell fod y rhwydwaith Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol yn cael ei wella o 2014 ymlaen, gyda mwy o Bwyntiau Cyswllt Cenedlaethol, a'r rhan fwyaf ohonynt yn llawn amser, a byddant wedi eu halinio'n agos gydag agenda diwydiannol y Bwrdd Strategaeth Technoleg. Bydd Uned Horizon 2020 Unit WEFO yn sicrhau fod yr adnodd ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio'n llawn yng Nghymru. Ond, bydd yr Uned yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn adnabod cyfleoedd i barhau i wella cymorth, gan gynnwys drwy'r gwerthusiad annibynnol a gynlluniwyd. Lle gwelir cyfleoedd, bydd yr Uned wedyn yn ceisio gwella'r cymorth sydd ar gael drwy weithio gyda rhanddeiliaid, neu os oes angen buddsoddiad ychwanegol, gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae eu rhan lle bo'n briodol.

Oblygiadau aiannol: Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y gwerthusiad ac i fynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd i wella'r cymorth, er efallai y bydd yn briodol defnyddio cronfeydd strwythurol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 5: Gwneud yr uned Horizon 2020 newydd yn WEFO yn gyfrifol am godi proffil Cymru yn Ewrop, gan gynnwys cyfuno'r defnydd o bobl ac adnoddau ym Mrwsel er mwyn cael y dylanwad mwyaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Un o brif amcanion Uned Horizon 2020 WEFO yw gwneud yn fawr o effaith y cymorth sy'n bodoli'n barod ar lefel Cymru, y DU a'r UE er mwyn cael mynediad at arian FP7/Horizon 2020 drwy fynd ati'n rhagweithiol i gynnwys a chanolbwyntio ar yr adnoddau a'r arbenigedd sy'n bodoli'n barod, yn y ffordd fwyaf effeithlon er budd sefydliadau Cymreig. Mae'r cyswllt hwn eisoes yn cynnwys y bobl a'r adnoddau ym Mrwsel ac mae cysylltiadau agos yn cael eu datblygu gyda ffynonellau cymorth a gwybodaeth megis swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel a swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasau clòs a'r enw da ar gyfer cyflawni o fewn y Comisiwn Ewropeaidd sy'n bodoli eisoes.

Mae'n bosibl targedu gweithgarwch a chymorth ym Mrwsel heb orfod cyfuno pobl neu adnoddau'n uniongyrchol. Ond, mae'r Uned eisoes wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn adnabod unrhyw gyfle ar gyfer gwelliant parhaus mewn cymorth, a bydd y gwerthusiad annibynnol a gynllunnir ar gyfer Horizon 2020 yn ystyried rôl bosibl adnoddau Brwsel o fewn ei rychwant. Lle gwelir cyfleoedd, bydd yr Uned wedyn yn ceisio gwella'r cymorth sydd ar gael drwy weithio gyda rhanddeiliaid, neu os oes angen buddsoddiad ychwanegol, gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae eu rhan o bosibl.

Oblygiadau aiannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer mwy o ymwneud ym Mrwsel yn cael ei dynnu o'r cyllidebau presennol lle bo modd, ond bydd angen cyllid ar gyfer y gwerthusiad annibynnol ac unrhyw fuddsoddiad ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd i wella'r cymorth, er efallai y bydd yn briodol defnyddio cronfeydd strwythurol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 6: Sicrhau bod gan staff yr uned newydd yn WEFO y gymysgedd angenrheidiol o arbenigedd a sgiliau technegol, gwyddonol a busnes, rhywbeth sydd wedi bod mor llwyddiannus yn yr Alban, Iwerddon, Aragon a Chatalonia.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'n rhaid i'r Uned gael mynediad at amrediad o sgiliau ac arbenigedd technegol, gwyddonol a busnes, er mwyn gallu cyflawni eu rôl, ond nid oes raid i hyn o

angenrheidrwydd gael ei gynnal o fewn yr Uned. Mae nifer helaeth o sgiliau, profiad ac arbenigedd eisoes ar gael ar lefel Cymru, y DU (i'w wella o dan yr adolygiad cyfredol o'r Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol) a'r UE, ac mae'n nod allweddol gan yr Uned i gysylltu, a chanolbwyntio'r adnoddau presennol hyn er budd sefydliadau Cymru. Dyma fydd y ffordd fwyaf effeithlon o fynd i'r afael â'r cymorth sydd ei angen a bydd yn osgoi dyblygu gwaith. Bydd yr Uned hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus mewn cymorth gan gynnwys drwy werthuso annibynnol a gynlluniwyd; lle gwelir cyfleoedd, er enghraifft mynediad at arbenigedd technegol, yna bydd yr Uned yn ceisio gwella'r cymorth sydd ar gael drwy ragor o fuddsoddiad, gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae rhan o bosibl.

Oblygiadau aiannol: Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y gwerthusiad ac i fynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd i wella'r cymorth, er efallai y bydd yn briodol defnyddio cronfeydd strwythurol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 7: Gwerthuso'r hyn sy'n deillio o brosiectau a ariennir gan FP7 ac ystyried sut y gall manteision economaidd a chymdeithasol unrhyw weithgarwch a gefnogir o dan Horizon 2020 gael eu cynnal yn fwy cyffredinol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae sialensiau o hyd wrth gael mynediad at ddata dibynadwy ynglŷn â gweithgarwch FP7 yng Nghymru ond mae Uned Horizon 2020 WEFO yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sefydlu pa ddata dibynadwy ynglŷn â defnyddio cyllid FP7/Horizon 2020 allai fod ar gael ar draws Ewrop. Byddwn yn gallu ystyried wedyn y ffordd orau o osod 'gwaelodlin' ar gyfer gweithgarwch Horizon 2020 a pha dargedau heriol, ond posibl, y gellid eu gosod i'r Uned a'r gymuned ymchwil a menter yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, bydd telerau ac amodau cynllun cymorth SCoRE Cymru a lansiwyd yn ddiweddar, yn galluogi Uned Horizon 2020 i olrhain gweithgarwch y mae wedi ei gefnogi. Mae'r Uned hefyd yn cysylltu gyda Phrifysgolion Cymru i gael mynediad at wybodaeth ynglŷn â'u ceisiadau i FP7/Horizon 2020 lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru felly'n derbyn yr angen i sefydlu 'gwaelodlin' y gellir mesur perfformiad yn ei erbyn.

Hyd nes y bydd y gwaith 'gwaelodlin' wedi ei gwblhau, mae'n anodd asesu a oes dichon cynnal gwerthusiad o effaith economaidd a chymdeithasol y gweithgaredd a gefnogir o dan FP7/Horizon 2020, ond mae'n ymddangos y byddai'n gryn her. Os yw gwerthusiad annibynnol yn bosibl, yna rhoddir ystyriaeth i hyn os bydd yn ychwanegu gwerth at yr wybodaeth bresennol; bydd gan sector Addysg Uwch Cymru ran i'w chwarae yma hefyd.

Mae'n werth nodi bod unrhyw geisiadau yn y dyfodol ar gyfer buddsoddiadau'r Gronfa Strwythurol mewn gweithgaredd sy'n cynyddu'r gallu'n uniongyrchol o ran gwella mynediad at ariannu ymchwil, megis Horizon 2020, bydd angen iddynt ddangos effaith economaidd a chymdeithasol posibl sy'n sylweddol, cyn cael eu cymeradwyo gan WEFO. Caiff effaith buddsoddiadau'r gronfa strwythurol eu profi wedyn drwy werthusiad annibynnol.

Oblygiadau aiannol: Bydd unrhyw werthusiad annibynnol angen arian ychwanegol.

Argymhelliad 8: Gwneud yr uned newydd yn WEFO yn gyfrifol am ledaenu canlyniadau prosiectau ymchwil yr UE, hyrwyddo'r defnydd o'r canlyniadau hynny ac ymelwa arnynt.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae gan Uned Horizon 2020 WEFO a WEFO'n gyffredinol, rôl eisoes i gyfathrebu'r cyfleoedd a'r manteision er mwyn cael mynediad at arian ymchwil a menter yr UE – boed yn Gronfeydd Strwythurol neu'n FP7/Horizon 2020; dyma un fantais synergyddol bod yr Uned wedi ei lleoli o fewn WEFO. Mae'r Uned eisoes yn gwneud cynnydd yn y maes hwn, gan gynnwys drwy ymwneud â Horizon 2020 drwy ddigwyddiadau a dargedir a gweithgareddau eraill gan y wasg/cyfryngau.

Mae'n briodol i'r Uned neu i WEFO gael rôl uniongyrchol mewn lledaenu, ymelwa a hyrwyddo'r defnydd o ganlyniadau prosiectau ymchwil yr UE. Gan weithio drwy ei randdeiliaid, bydd yr Uned yn annog ac yn cefnogi buddsoddiad strategol sydd wedi ei seilio ar ymchwil llwyddiannus yr UE, a bydd hynny yn ei dro yn lledaenu, ymelwa ac yn cymhwyso'r ymchwil hwnnw.

Bydd yr Uned yn gweithio'n agos gydag Adran Arloesi a Gwyddoniaeth yr Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant, er mwyn sicrhau bod y Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol a sefydlir o dan raglen Sêr Cymru, a phrosiectau cydweithredol a gefnogir o dan arian A4B, yn ystyried pob prosiect ymchwil perthnasol yr UE a sut y gellir eu datblygu ymhellach yn eu gwaith.

Oblygiadau aiannol: Ni chaiff yr un o'r gweithgareddau cyfathrebu eu hariannu o gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 9: Annog y sector addysg uwch i gael mwy o ffocws ac i fod yn fwy disgybledig wrth benderfynu ar ei arbenigeddau cryfaf ac wrth ddatblygu'r blaenoriaethau hynny i'r dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Nododd Gwyddoniaeth i Gymru dri 'Maes Her Fawr' lle'r oedd y dystiolaeth yn dangos fod gan Gymru gryfderau ymchwil penodol a lle dylid rhoi blaenoriaeth i gymorth yn y dyfodol. Mae'r arbenigedd hwn yn cael ei gynorthwyo ar hyn o bryd drwy sefydlu Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol ym mhob un o'r meysydd hyn.

Gwnaed cais i'r sector addysg uwch gynhyrchu cynigion ar gyfer y Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol sydd yn canolbwyntio ar eu harbenigaeth gryfaf, a chânt y cyfrifoldeb o adeiladu ar y blaenoriaethau yma wrth iddynt gychwyn ar eu gweithrediadau yn nes ymlaen yn 2013.

Oblygiadau aiannol: Dim, mae'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol yn cael eu hariannu o dan gyllidebau presennol Sêr Cymru.

Argymhelliad 10: Esbonio rhagor ar rôl y Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol newydd yn ysgogi cyfranogiad yn Horizon 2020, a sut y bydd hyn yn cael ei ategu gan yr uned newydd yn WEFO.

Ymateb: Derbyn

Disgwylir i'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol ffurfio cyswllt llawn gyda rhaglen Horizon 2020, gan ddylanwadu ar gynnwys y galwadau am arian drwy lefel uchel o ymwneud gan Gyfarwyddwyr y Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol, adnabod cyfleoedd i Gymru ymwneud, a thrwy gynhyrchu cynigion o ansawdd uchel ar gyfer ariannu ar draws holl linynnau perthnasol y rhaglen.

Bydd WEFO a'i Uned Horizon 2020 felly yn ffurfio cyswllt gyda'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, er mwyn ffurfio sail i benderfyniadau WEFO ynglŷn â'r lle gorau i dargedu cymorth Horizon 2020, yn ogystal â buddsoddiadau arian strwythurol.

Oblygiadau aiannol: Dim, caiff y gweithgareddau eu hariannu o gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 11: Sicrhau y bydd dull integredig o weithredu yng nghyswllt ffrydiau ariannu'r UE yn parhau o dan bortffolios y cabinet newydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, ac y bydd gan WEFO rôl allweddol yn hyrwyddo'r prosesau o gydweithio ac integreiddio ar lawr gwlad.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyfrifoldeb dros Gronfeydd Strwythurol wedi ei drosglwyddo i fy mhortffolio yn unol ag argymhellion adolygiad annibynnol a wnaed gan Dr Grahame Guildford ar weithredu trefniadau ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd ar draws portffolios Gweinidogol, gan gynnwys integreiddio cronfeydd yr UE i helpu i drawsffurfio'n rhagolygon economaidd, a'i gwneud yn haws i sefydliadau ffurfio cyswllt, cael mynediad a budd o gronfeydd yr UE. Mae integreiddio cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn mynd rhagddo ar sawl lefel o fewn hyblygrwydd deddfau'r UE, gan gynnwys:

- gwaith Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd yn darparu cyfeiriad strategol ynglŷn â datblygiad rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn y dyfodol a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd yn ddiweddar;
- un Pwyllgor Monitro Rhaglen (fel yr amlinellwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig ar y cyd gan y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 25 Mehefin);
- datblygu Pennod Cymru fel rhan o Gytundeb Partneriaeth y DU;
- cytuno y dylai'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd a argymhellwyd fel rhan o Adolygiad Guilford, dynnu sylw at gyfleoedd economaidd ar gyfer yr holl gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd; a
- datblygu un porth mynediad at gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, a lle bo modd, prosesau a chanllawiau ymgeisio cyffredin, a threfniadau diwydrwydd ac arfarnu dyladwy, a threfniadau dangosyddion perfformiad a monitro.
- sefydlwyd Uned Horizon 2020 yn WEFO er mwyn gwneud yn fawr o'r synergedd rhwng ymchwil yr UE ac ariannu arloesedd a Chronfeydd Strwythurol.

Oblygiadau aiannol: Dim, caiff y gweithgareddau eu hariannu o gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 12: Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi partneriaeth fwy strategol - fersiwn Cymru o'r dulliau llwyddiannus yn Iwerddon a'r Alban – rhwng addysg uwch a busnesau yng Nghymru, yng nghyswllt y cyfleoedd y mae Horizon 2020 yn eu darparu. Dylai hyn gynnwys cynnal cynhadledd Horizon 2020 flynyddol neu wythnos wyddoniaeth yng Nghymru i godi proffil ymchwil a ariennir gan yr UE, i drafod syniadau ac i roi sylw i brosiectau llwyddiannus.

Ymateb: Derbyn

Mae Uned Horizon 2020 WEFO eisoes yn weithgar yn hyrwyddo ac yn cefnogi dull mwy strategol yng Nghymru o gael mynediad at arian Horizon 2020, drwy greu cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid allweddol. Drwy wneud hynny, bydd yr Uned yn llwyddo i gael yr effaith fwyaf o'r cymorth sy'n bodoli'n barod ar gyfer cael mynediad at FP7/Horizon 2020 ar lefel Cymru, y DU a'r UE, er budd sefydliadau Cymreig. Mae gwella'r cysylltiadau rhwng busnes ac Addysg Uwch yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'r Uned yn gweithio gyda thimau sector Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, er mwyn adnabod busnesau allai gymryd rhan mewn ymchwil ar y cyd, yn enwedig ym meysydd Her Fawr Gwyddoniaeth i Gymru. Bydd yr Uned hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn adnabod cyfleoedd eraill i wella cymorth gan gynnwys drwy'r gwerthusiad annibynnol a gynlluniwyd. Lle gwelir cyfleoedd, bydd yr Uned wedyn yn ceisio gwella'r cymorth sydd ar gael drwy weithio gyda rhanddeiliaid, neu os oes angen buddsoddiad ychwanegol, gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae eu rhan o bosibl.

Mae'r Uned hefyd yn manteisio ar bob cyfle i godi proffil ymchwil a ariannwyd gan yr UE, cyfryngu syniadau ac arddangos prosiectau llwyddiannus, er enghraifft drwy wefan WEFO a gweithdy Horizon 2020 yn ddiweddar yn y digwyddiad amlwg iawn, Digidol 2013. Mae nifer o ddigwyddiadau eraill ar y gweill ar gyfer yr hydref, gan gynnwys digwyddiad lansio Horizon 2020. Os yw'n briodol, efallai y bydd y digwyddiad lansio hwn yn datblygu i fod yn ddigwyddiad blynyddol, gyda chyswllt posibl gydag ymrwymiad presennol WEFO i drefnu digwyddiad blynyddol ar Gronfeydd Strwythurol, er mwyn dangos synergedd rhwng y cronfeydd.

Oblygiadau aiannol: Gellir ariannu nifer o weithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyllidebau presennol, ond bydd unrhyw weithgarwch ychwanegol arwyddocaol, megis cynadleddau yn galw am arian ychwanegol. Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y gwerthusiad ac i fynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd i wella'r cymorth, er efallai y bydd yn briodol defnyddio cronfeydd strwythurol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 13: Dechrau datblygu'r gallu strategol a fydd yn galluogi partneriaid yng Nghymru i gyfrannu at y rhaglen Cymunedau Arloesi a Gwybodaeth (KICs) arfaethedig yn 2018 mewn meysydd a fydd yn meithrin cryfderau ac arbenigedd Cymru. Dylai hyn gynnwys ystyried defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE i gychwyn gweithgarwch yn y maes hwn.

Ynghyd ag:

Argymhelliad 14: Ystyried cynnal cynhadledd, mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch, i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i sefydliadau a busnesau Cymru gan y don newydd o KICs.

Ymateb i 13 ac 14: Derbyn mewn egwyddor

Ers ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad cyntaf y Pwyllgor, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i ddatblygu Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae'r trafodaethau gyda'r prifysgolion pennaf yn y Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol ar y gweill ers tro, a disgwylir i'r Rhwydweithiau fod yn weithredol ar gychwyn y flwyddyn academaidd yn 2013, sef erbyn mis Hydref 2013.Rydym yn dal i deimlo y gall y Rhwydweithiau hyn gynnig ffordd effeithiol o annog a hwyluso ymwneud busnesau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru gyda chymunedau arloesi a gwybodaeth neu KICs. Efallai hefyd mai trwy'r Rhwydweithiau hyn y daw unrhyw gynigion i'r amlwg ar gyfer gweithgarwch ychwanegol allai gefnogi'r amgylchedd cywir yng Nghymru ar gyfer mwy o ymwneud â KICs; gellid ystyried y cynigion hyn wedyn ar gyfer cymorth gan y Gronfa Strwythurol ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill.

Fel y cynghorwyd yn barod, mae'r tri KICs presennol yn gweithredu o dan ambarél y Sefydliad Technoleg Ewropeaidd, a chânt eu harwain gan Brifysgolion pennaf Ewrop ar raddfa Ewropeaidd. Dim ond un sefydliad o Gymru - Prifysgol Aberystwyth, sy'n rhan o hyn - fel partner cysylltiedig â Climate KIC ac nid ydym yn ymwybodol o ymwneud unrhyw fusnes arall sydd wedi ei leoli yng Nghymru. Er efallai y bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn annhebygol o fod yn bartneriaid craidd mewn rhaglen KIC, gall Llywodraeth Cymru barhau i'w hannog i ymwneud a'r rhwydweithiau hyn, lle bynnag bo modd. Bydd Uned Horizon 2020 WEFO yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae KICs yn eu cynnig ochr yn ochr â'r cyfleoedd eraill y mae Horizon 2020 yn eu cynnig, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau priodol a dargedwyd lle bo angen.

Oblygiadau aiannol: Mae'n debygol y bydd mwyafrif y gweithgareddau i annog Prifysgolion a busnesau priodol i ddod yn rhan o KICs nawr neu yn y dyfodol, yn cael ei ariannu o gyllidebau presennol, megis y gronfa sy'n bodoli ar gyfer Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol o dan Sêr Cymru neu weithgareddau Uned Horizon 2020, cyn belled bod yr ymrwymiad amser ac adnoddau yn cyfiawnhau'r ymwneud. Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw gynadleddau neu i fynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd i wella'r cymorth, er efallai y bydd yn briodol defnyddio cronfeydd strwythurol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 15: Ymchwilio i sut y gall busnesau Cymru gyfranogi'n well yn y maes Gweithredoedd Marie Curie o dan Horizon 2020, a sut y gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol staff academaidd er mwyn eu cadw yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae cynyddu cyfranogiad busnesau Cymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh), i gael mynediad at Horizon 2020 yn un o amcanion allweddol Uned Horizon 2020. Bydd yr Uned yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i adnabod unrhyw sefydliadau sydd â'r potensial o gael mynediad at gyllid ac sydd wedi colli cyfle oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu gymorth; bydd hyn yn cynnwys mynediad at Weithredoedd Marie Skłodowska-Curie lle bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hyrwyddo symudedd yr ymchwilwyr ar draws ffiniau a rhwng sectorau a meysydd ymchwil. Mae hefyd yn gefnogol i fesurau i wella datblygiad gyrfa ymchwilwyr, er mai cyfrifoldeb sefydliadau Addysg Uwch Cymru yw datblygu eu staff. Bydd gweithgareddau o'r fath yn cryfhau maes Ymchwil Ewropeaidd. Mae ymchwilwyr o Gymru ac yng Nghymru wedi manteisio ar gyllid drwy Weithredoedd Marie Curie, ond efallai na fydd yn bosibl neu'n briodol cyfyngu'r cymorth i weithgarwch fydd yn cadw ymchwilwyr yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae Uned Horizon 2020 eisoes wedi cefnogi un ymchwilydd drwy gynllun grant SCoRE Cymru (olynydd y Gronfa Cydweithredu Cymru-Ewrop) i ddatblygu cais i Weithredoedd Marie Curie lle dylai'r sawl sy'n manteisio, breswylio yng Nghymru. Mae'r Uned hefyd yn cychwyn trafod gyda sefydliadau Addysg Uwch Cymru ynglŷn â menter i Gymru gyfan er mwyn gwella'r llwyddiant wrth gael mynediad at Weithredoedd Marie Skłodowska-Curie o dan Horizon 2020, a'r nod yw cadw'r ymgeiswyr llwyddiannus yng Nghymru.

Oblygiadau aiannol: Mae'n debyg y bydd y cyswllt a'r codi ymwybyddiaeth yn cael eu hariannu o gyllidebau parod, ond bydd unrhyw gynigion ychwanegol i gefnogi busnesau neu Addysg Uwch i gael mynediad at Weithredoedd Marie Skłodowska-Curie yn galw am arian ychwanegol, er efallai y bydd defnyddio cronfeydd strwythurol yn briodol mewn rhai achosion.

Argymhelliad 16: Mewn cydweithrediad â'r sector addysg uwch, fynd ar ôl y cyfleoedd a ddarperir gan CoFund o dan Horizon 2020 yng nghyd-destun cyflawni'r strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Caiff y sector addysg uwch ei annog i geisio pob cyfle i wella ariannu ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys drwy raglen y Co Fund, os teimlir bod hynny'n briodol unwaith y bydd manylion ar gael ynglŷn â sut y byddai menter o'r fath yn gweithredu drwy Horizon 2020.

Oblygiadau aiannol:  Byddai angen arian cyfatebol ar gyfer unrhyw fenter CoFund y byddai Cymru'n cymryd rhan ynddi. Byddai angen ystyried amrediad o ffynonellau ariannu gan bob sefydliad sy'n ymwneud â'r cynllun, ond ni ellir mesur hynny ar y cam hwn.

Argymhelliad 17: Fel rhan o'i hadolygiad o Gronfa Ewropeaidd Cymru, ystyried manteision profiad Iwerddon o reoli cynlluniau cymorth hyblyg sy'n annog symudedd a chyfranogiad ar lefel yr UE.

Ymateb: Derbyn

Cwblhaodd Uned Horizon 2020 WEFO ei adolygiad gyda phartneriaid allweddol Cronfa Cydweithredu Cymru-Ewrop (WECF) ym mis Ebrill a lansiwyd cynllun newydd, SCoRE Cymru (Cefnogi Ymchwil ac Arloesi Cydweithredol yn Ewrop) ym mis Mai.  Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannu i ysgogi sefydliadau yng Nghymru i gyfranogi mewn ymchwil cydweithredol yn yr UE megis FP7 a Horizon 2020 drwy gynorthwyo gyda'r costau teithio a wynebir wrth greu partneriaethau, a mynychu digwyddiadau perthnasol, a chostau ysgrifennu ceisiadau.

Mae gwelliannau i SCoRE Cymru'n cynnwys cynnydd yng nghyfradd y cymorth yn ymwneud a theithio ar gyfer BBaCh o 50% i 100% a chynnydd o 25% yng nghyfradd y cymorth i Brifysgolion os ydynt yn teithio gyda phartner BBaCh posibl; mae'r ddau newid yma'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag ymwneud BBaCh yn FP7/Horizon 2020.Cyflwynwyd mwy o hyblygrwydd drwy SCoRE Cymru fydd nawr yn cynorthwyo gweithgarwch creu consortiwm cynnar a theithio perthnasol y tu allan i'r UE ac i leoliadau yn y DU.  Mae'r broses o ymgeisio wedi ei symleiddio gyda'r nod o leihau'r amser a gymer, ac mae'r meini prawf asesu bellach yn canolbwyntio ar ansawdd y cynnig yn hytrach na rheolau cymhwyster sefydlog.

Rydym eisoes wedi rhoi gwybod ein bod yn bwriadu cael gwerthusiad annibynnol er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus i gymorth Horizon 2020, a bydd hyn yn ystyried rôl SCoRE Cymru.  Ni allwn farnu ymlaen llaw beth fydd canlyniadau'r gwerthusiad, ond mae'n bosibl y bydd unrhyw Gam 2 yn SCoRE Cymru yn ymestyn ei weithgareddau y tu hwnt i deithio a chymorth i ysgrifennu cais.

Oblygiadau aiannol:  Mae SCoRE Cymru yn symud ymlaen o fewn cyllideb bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Cydweithredu Cymru-Ewrop.  Cydnabyddir y bydd cyllid ychwanegol ar gael os yw'r galw yn fwy na'r gyllideb neu fod Cam 2 y cynllun yn

cynnwys gweithgareddau ychwanegol.  Yn yr amgylchiadau hyn, bydd galw pellach ar gyllideb Llywodraeth Cymru er nad yw'n bosibl amcangyfrif maint y galw hwnnw yn y cyfnod hwn; caiff ffynonellau ariannu eraill eu hystyried gan gynnwys defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol.

Atodiad

Diweddariad ar Ymateb Ysgrifenedig 20 Medi 2012 gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes o'r enw 'Horizon 2020: Adroddiad Cyfnod 1'

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru, drwy lais Llywodraeth y DU yn y Cyngor, geisio diwygio cynigion drafft Horizon 2020, fel bod cyllideb Gweithredoedd Marie Curie ar gyfer 2014 o leiaf yn aros yr un fath a 2013.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gefnogi sefyllfa Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb Horizon 2020 yn dal yn ddibynnol yn y pen draw ar ganlyniad y trafodaethau ynglŷn â Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE ar gyfer 2014 - 2020. Cytunodd y Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror ar gyllideb yr UE gyda gwell ffrâm o ran twf, swyddi a bod yn gystadleuol. Bydd ymchwil a datblygiad, a buddsoddiadau eraill er budd twf, bellach yn cyfrif am 13% yn hytrach na 9% o gyfanswm cyllideb yr UE. Mae'r adran o'r gyllideb sy'n cynnwys gwariant ar ymchwil, arloesi ac arian i brifysgolion wedi cynyddu o draean. Mae trafodaethau gyda Senedd Ewrop, fodd bynnag, ar y gweill. O ran trafodaethau Horizon 2020, mae gan sawl Aelod Wladwriaeth arall farn debyg ynglŷn â phwysigrwydd Gweithredoedd Marie Curie, fel yn achos y Senedd Ewrop, ac mae Llywodraeth Cymru drwy Lywodraeth y DU yn parhau i annog canlyniad sy'n sicrhau bod cyfran helaethach o gyllideb H2020 yn mynd i'r mesurau hyn. Unwaith eto, mae'r drafodaeth gyda Senedd Ewrop yn parhau.

Oblygiadau aiannol: Dim i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurder ar y ffordd y bydd ymchwil mewn gwyddoniaeth gymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau yn cael cymorth gan gynigion yr UE, a sut maen nhw'n cyd-fynd â Horizon 2020 yn arbennig.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid arwyddocaol. Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i brif ffrydio ymchwil mewn gwyddoniaeth gymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau drwy Horizon 2020 yn parhau, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweld hyn fel cam cadarnhaol. Mae'r cynnig i rannu'r chweched her gymdeithasol ('Cymdeithasau cynhwysol, arloesol a diogel') yn ddau hefyd yn parhau a dylai roi mynediad cliriach i ymchwilwyr gwyddoniaeth gymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau at arian mewn sawl maes allweddol.

Oblygiadau aiannol: Dim.

Argymhelliad 3: Dylid annog y Comisiwn Ewropeaidd i gyhoeddi proffiliau'n dangos y dadansoddiad gwreiddiol, a'r prosiectau llwyddiannus a ariannwyd gan, y Rhaglen Ymchwil Fframwaith (FP7) a Horizon 2020.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i godi hyn yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd lle bo'n briodol a thrwy Lywodraeth y DU. Bu peth symud yn y blynyddoedd diwethaf o ran y tabl sy'n gosod trefn ar 50 rhanbarth lefel 2 yr UE27 NUTS a ryddhawyd yn 2011 a chynnwys y darluniadau (neu'r Mapiau) o bob rhanbarth, y tro hwn i lefel NUTS 3 yn 2012.

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd reolau cyfrinachedd llym ar gyfer data'r Rhaglen Fframwaith ac ni chredwn y bydd hynny'n cael ei lacio. Disgwylir i adroddiad Monitro Blynyddol nesaf yr FP7 gael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Awst 2013, ond nid yw'n glir a yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu cynnwys mwy o wybodaeth ranbarthol.

Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 7 i adroddiad Cyfnod 2.

Oblygiadau aiannol: Gweler yr ymateb i argymhelliad 7 i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 4: Wrth ymateb i gasgliadau ac argymhellion ein hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi ei sefyllfa ynglŷn â chynigion Horizon 2020. Rydym yn erfyn ar Weinidogion Cymru i eiriol ei sefyllfa i Lywodraeth y DU a thrwy Senedd Ewrop.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid i'r ymateb blaenorol.

Oblygiadau aiannol: Dim.

Argymhelliad 5: Dylai'r sector addysg uwch yng Nghymru ddarparu gwybodaeth ynglŷn â lefelau cyfranogiad yng ngalwad 2013 o dan FP7, sy'n rhoi'r cyfle cyntaf i asesu a yw cymorth penodol ar gyfer drafftio a chyflwyno ceisiadau am arian yn dwyn ffrwyth.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Ni chyflwynwyd yr argymhelliad i Lywodraeth Cymru, ond gweler yr ymateb i argymhelliad 7 i adroddiad Cyfnod 2.

Oblygiadau aiannol: Dim i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6: Dylai'r sector addysg uwch egluro sut y bydd ei ddull o ganolbwyntio ar bedwar grŵp ymchwil yn gweithio'n effeithiol gyda'r sylw ar dair Her Fawr yn strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru gan Lywodraeth Cymru.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Ni chyflwynwyd yr argymhelliad i Lywodraeth Cymru, ond gweler yr ymateb i argymhelliad 9 i adroddiad Cyfnod 2.

Oblygiadau aiannol: Dim i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn trafodaeth â'r sector addysg uwch yng Nghymru, archwilio'r potensial i ddatblygu Menter CoFund o dan Horizon 2020 ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff academaidd.

Diweddariad i’r ymateb blaenorol:

Gweler yr ymateb i argymhelliad 16 i adroddiad Cyfnod 2.

Oblygiadau aiannol:  Gweler yr ymateb i argymhelliad 16 i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 8: Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fanylu’n union sut y bydd yn alinio arian gan Horizon 2020 gydag Arian Strwythurol yr UE er mwyn llwyddo i gael synergedd i wella perfformiad Cymru wrth ennill arian ymchwil, datblygu ac arloesi, ac wrth fasnachu’r gweithgaredd hwnnw.

Diweddariad i’r ymateb blaenorol:

Mae hyn yn cael ei drafod fel rhan o ddatblygu rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi yng Nghytundeb Partneriaeth y DU (dogfen strategol ar lefel y DU sy’n cynnwys Pennod Cymru) ac yn Rhaglenni Gweithredol unigol (dogfennau rhaglennu arian penodol) ble bydd yn ceisio aliniad a synergedd.

Mae nifer o’r ymatebion i adroddiad Cyfnod 2 yn rhoi diweddariad ar yr argymhelliad hwn, lle mae Uned Horizon 2020 wedi ei sefydlu o fewn WEFO ers y diweddariad olaf er mwyn gwneud yn fawr o’r synergedd rhwng y cronfeydd.

Oblygiadau aiannol:  Mae unrhyw oblygiadau ariannol wedi eu nodi yn yr ymatebion perthnasol i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru yrru ymlaen gyda strategaeth arbenigo craff, mewn ymgynghoriad a rhanddeiliaid allweddol, sy’n ceisio creu gwir ddiwylliant o arloesi drwy academyddiaeth a diwydiant yng Nghymru.

Diweddariad i’r ymateb blaenorol:

Cyhoeddwyd ‘Fersiwn Adolygu’ o Arloesi Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013, yn dilyn y broses ymgynghori ac yn ymgorffori mewnbwn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan gadeiryddiaeth Yr Athro Kevin Morgan.

Yn dilyn cyhoeddi’r strategaeth, mynychodd swyddogion ES&T sesiwn adolygu gan gydweithwyr ar Lwyfan Arbenigo Craff y Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â chynrychiolwyr o sawl adran o’r Comisiwn a sawl rhanbarth Ewropeaidd arall, sydd hefyd yn ymwneud â datblygu strategaethau arbenigo craff.

Ystyriodd y llwyfan broses ymgynghori a chysylltu Llywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer dda a bod Cymru ymhell ar y blaen yn y broses o ddatblygu polisi.

Derbyniwyd mewnbwn gan sawl Adran arall o Lywodraeth Cymru hefyd ac mae’n cael ei ymgorffori i Arloesi Cymru gyda’r bwriad o greu fersiwn terfynol yn haf 2013.

Oblygiadau aiannol: Dim oblygiadau newydd.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei adolygiad o Lywodraeth Cymru, nodi sut y bydd y cymorth fydd ar gael yn y dyfodol yn fwy effeithiol ac yn fwy hygyrch, er mwyn datblygu arbenigedd a gallu sefydliadau addysg uwch a busnesau yng Nghymru i baratoi ceisiadau o dan Horizon 2020.

Ynghyd ag

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru, yn rhan o'i adolygiad o drefniadau rheoli rhaglenni'r UE, sefydlu mecanwaith i annog a chefnogi academyddion a chwmnïau yng Nghymru wrth ymgeisio am arian ymchwil ac arloesi Ewropeaidd, gan gynnwys cymorth ar gyfer teithio a rhwydweithio rhwng cenhedloedd a chostau partneriaeth sy'n ymwneud â datblygu consortia llwyddiannus.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol i 10 a 12:

Ers y diweddariad olaf, mae Uned Horizon 2020 WEFO wedi ei chreu a'r cynllun cymorth, SCoRE Cymru, wedi ei lansio. Mae nifer o ymatebion i adroddiad Cyfnod 2 yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r datblygiadau hyn.

Disgwylir i'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol ffurfio cyswllt llawn gyda rhaglen Horizon 2020, gan ddylanwadu ar gynnwys y galwadau am arian drwy lefel uchel o ymwneud gan Gyfarwyddwyr y Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol, adnabod cyfleoedd sy'n rhoi rhan i Gymru, a thrwy gynhyrchu cynigion o ansawdd uchel ar gyfer ariannu ar draws holl linynau perthnasol y rhaglen.

Oblygiadau aiannol: Mae unrhyw oblygiadau ariannol wedi eu nodi yn yr ymatebion perthnasol i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru annog pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru i gyflogi swyddog trosglwyddo technegol, a dylai wneud cais am adroddiadau rheolaidd ynglŷn â pherfformiad prifysgolion o ran nifer y ceisiadau am arian ymchwil a datblygu a gyflwynwyd a phrosiectau a fasnachwyd.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid sylweddol i'r ymateb blaenorol. Mae'r ymateb i argymhelliad 7 yn adroddiad Cyfnod 2 yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â chynigion i greu 'gwaelodlin' i berfformiad FP7/Horizon 2020.

Oblygiadau aiannol: Gweler yr ymateb i argymhelliad 7 i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried amrediad eang o ddulliau arloesol o hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd am arian Ewropeaidd er mwyn cynnwys cwmnïau bach a chanolig yn fwy effeithiol.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid sylweddol i'r ymateb blaenorol. Mae nifer o'r ymatebion i adroddiad Cyfnod 2 yn rhoi diweddariad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth, a gwella cyfranogiad BBaCh yn Horizon 2020.

Oblygiadau aiannol: Mae unrhyw oblygiadau ariannol wedi eu nodi yn yr ymatebion perthnasol i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i greu cysylltiadau a chael mynediad at arbenigedd rhyngwladol a gweithgarwch cwmnïau mawr er mwyn cysylltu cymunedau gwybodaeth ac arloesedd ar ôl Horizon 2020.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Gweler yr ymateb i argymhellion 13 ac 14 i adroddiad Cyfnod 2.

Oblygiadau aiannol: Gweler yr ymateb i argymhellion 13 ac 14 i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd a'r sefydliadau addysg uwch, nodi'r ffordd orau o goladu a chydlynu data cywir ynglyn a'r cydweithredu cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cynnwys sefydliadau o Gymru sy'n gwneud cais am arian o dan Horizon 2020, a dylai fonitro perfformiad cymharol Cymru yn y maes hwn.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid sylweddol i'r ymateb blaenorol. Gweler y diweddariad ar argymhelliad 3 uchod a'r ymateb i argymhelliad 7 o adroddiad Cyfnod 2 sy'n rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â chynigion i greu 'gwaelodlin' i berfformiad FP7/Horizon 2020.

Oblygiadau aiannol: Gweler yr ymateb i argymhelliad 7 i adroddiad Cyfnod 2.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo cyfranogiad unigolion o sectorau busnes ac addysg uwch Cymru fel cynghorwyr arbenigol yn rhaglenni FP7 a Horizon 2020 ac mewn rhwydweithiau ymchwil, arloesi a thechnoleg ar lefel yr UE, er mwyn gwella proffil a pherfformiad Cymru yn y maes hwn.

Diweddariad i'r ymateb blaenorol:

Dim newid sylweddol i'r ymateb blaenorol. Bu Uned Horizon 2020 WEFO wrthi'n weithgar yn hyrwyddo'r galw diweddar am arbenigwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd.

Oblygiadau aiannol: Dim i Lywodraeth Cymru. Bydd unrhyw waith i annog ymwneud o'r fath yn cael ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.